

ST. DAVID'S CATHOLIC COLLEGE
COLEG CATHOLIG DEWI SANT

POLISI DEFNYDD MEWNOL O'R GYMRAEG

Polisi Iaith Mewnol

Mae'n ofynnol i ni weithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu o fewn y coleg.

- Dylai staff roi gwybod i Wasanaethau Pobl os mai Cymraeg yw eu dewis iaith er mwyn derbyn cyfathrebiad sy'n ymwneud â'u cyflogaeth sy'n cyfeirio ato ef/ati hi yn bersonol. Caiff hwn ei gofnodi er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol.
- Bydd y mwyafrif o brosesau AD ar gael yn Gymraeg.
- Mae Polisiâu a Gweithdrefnau Rheoli Perfformiad gan gynnwys Cynlluniau Datblygu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan roi'r cyfle i staff eu cwblhau yn eu dewis iaith.

Eitemau sy'n cael eu hanfon i'r holl staff neu i grwpiau mawr o staff

Dylai'r rhain fod yn ddwyieithog o fewn yr un ddogfen, gyda'r Gymraeg uwchben neu i chwith y Saesneg. Mae'r eitemau hyn yn cynnwys:

- Holl ganllawiau staff
- Cylchlythyrau
- Hysbysiadau (staff, swyddfa, swyddi gwag, iechyd a diogelwch, ac ati)
- Polisiâu
- Ffurflenni
- Negeseuon e-bost neu gyfarwyddiadau i bob aelod o staff neu grwpiau mawr o staff. Dylai teitlau e-byst fod yn ddwyieithog ac yn fyr. Mae negeseuon e-bost safonol, e.e. swyddfa ar gau, parcel i'w ddsbarthu, ar gael ar y fewnwyd.
- Cyflwyniadau PowerPoint

Os bydd angen gwahanu dogfennau Cymraeg a Saesneg, dylid rhoi teitlau clir iddynt a'u hanfon ar yr un pryd gydag e-bost eglurhaol dwyieithog bob amser.

Eitemau sy'n cael eu hanfon i grwpiau bach o staff

Dylai'r rhain fod yn ddwyieithog, neu yn ôl dewis iaith holl aelodau'r grŵp

Eitemau sy'n cael eu hanfon i unigolion

Gall y rhain fod yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn dibynnu ar ddewis/gallu ieithyddol y derbynydd/derbynwyr. Dylid anfon negeseuon safonol yn ddwyieithog neu yn y dewis iaith.

Anfon eitemau yn ddwyieithog yn fewnol

Anogir siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau ysgrifennu Cymraeg trwy anfon eitemau'n ddwyieithog lle bynnag y bo hynny'n briodol.

Mae meddalwedd Bing/Word Translate eisoes ar gael o fewn Word i'w ddefnyddio gan siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr er mwyn anfon gwaith yn fewnol. Gellir dod o hyd i arweiniad a gwybodaeth pellach ar sut i ddefnyddio Bing/Word Translate ar dudalen Cyfieithu'r fewnwyd, neu cysylltwch â'r Tîm Cyfieithu am arweiniad pellach.

Cyfarfodydd mewnol

Lle bynnag y bo'n bosib, dylid cynnig dewis iaith i staff mewn cyfarfodydd mewnol, yn yr un modd ag y mae aelodau'r cyhoedd yn cael dewis iaith mewn cyfarfodydd allanol.

Ar gyfer cyfarfodydd grŵp mawr neu holl aelodau'r staff, gellir trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Cysylltwch â'r gwasanaeth cyfieithu i drefnu.

Pan na ddefnyddir cyfleusterau cyfieithu, dylid agor a chau pob cyfarfod yn ddwyieithog. Os oes sgiliau iaith Gymraeg ar gael i ddarparu cyfieithu anffurfiol, dylid rhoi gwybod ac annog staff bod croeso iddynt ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg. Dylai cyflwyniadau PowerPoint at sylw'r holl aelodau o staff neu grŵp mawr o staff fod yn ddwyieithog.

Iechyd a Diogelwch

Mae'r porth adrodd damweiniau a digwyddiadau ar gael i staff ei ddefnyddio yn Gymraeg neu yn Saesneg ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau.

Hyfforddiant

Mae hyfforddiant ar gael yn Gymraeg yn y meysydd canlynol:-

- Recriwtio a Chyfweld
- Cwynion a Gweithdrefnau Disgyblu
- Sefydlu
- Ymdrin â'r Cyhoedd
- Iechyd a Diogelwch
- Defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu

Cwynion

Mae croeso i staff sydd am gwyno wneud hynny yn Gymraeg neu'n Saesneg. Bydd cwynion sy'n cael eu derbyn yn cael ymateb mewn dewis ateb y cwynwr. Bydd unrhyw gyfarfod sy'n cael ei gynnal mewn perthynas â'r cwyn yn cael ei gynnal yn yr un iaith. Bydd siaradwr Cymraeg rhugl yn cynnal y cyfarfod lle bo staff wedi mynegi dymuniad i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg heb ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd olynol neu gydamserol.

Gweithdrefnau Disgyblu

Gall staff ymateb i honiadau a wneir yn eu herbyn yn y broses disgyblu fewnol yn Gymraeg. Bydd dewis iaith yn cael ei gynnig wrth drefnu cyfarfodydd sy'n ymwneud â phrosesau disgyblu. Bydd cyfarfodydd yn Gymraeg yn cael eu cynnal heb ddefnydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd olynol neu gydamserol.

I gael gwybodaeth bellach ar hyn cysylltwch ag

Alwyn Lloyd

Ystafell S7

alloyd@stdavidscollege.ac.uk



SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

O 2021 ymlaen, mae gan Goleg Dewi Sant ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg, er mwyn sicrhau bod gan bawb yr hawl i gyfathrebu a derbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Cyfrifoldeb pawb yw hyn, ac fel aelod staff, ceir nifer o bethau y mae'n rhaid i chi wneud: Ewch i fewnwyd y Coleg, a chymerwch olwg ar y safonau ar gyfer bob ardal. Am gyngor a chanllawiau, cysylltwch â welsh@stdavidscollege.ac.uk neu ffoniwch 395.



Pan fyddwch chi'n ateb ffôn i alwadau mewnol ac allanol, defnyddiwch gyfarchiad syml megis Bore da, Prynhawn da, Shwme. Os ydynt am barhau â'r sgwrs yn Gymraeg, trosglwyddwch i siaradwr Gymraeg yn eich adran neu ffoniwch 395. Pryd bynnag y byddwch chi'n cyhoeddi rhif ffôn coleg, ychwanegwch y llinell 'Mae Coleg Dewi Sant yn croesawu galwadau yn Gymraeg'.



Rydym yn gofyn i bobl neu sefydliadau a gysylltw'n yn aml gyda nhw os ydynt am dderbyn cyfathrebiadau yn Gymraeg. Pan rydym yn anfon gwybodaeth i'r bobl hynny, neu i grwpiau o bobl ar ran y Coleg, rydym yn gwneud hyn yn Gymraeg. Pan mae pobl yn cyfathrebu gyda ni yn Gymraeg, rydym yn ymateb yn Gymraeg.



Pan rydym yn cyfathrebu trwy ebost, rydym yn defnyddio llofnodion ebost dwyieithog a negeseuon 'tu allan i oriau' dwyieithog. Ebostiwch welsh@stdavidscollege.ac.uk



Pan rydych chi'n gwahodd pobl allanol i gyfarfodydd, gofynnwn os ydynt yn dymuno cynnal y cyfarfod yn Gymraeg. Os ydynt, ebostiwch Welsh@stdavidscollege.ac.uk am gyfieithydd.



Rydym yn hollol ddwyieithog ar-lein, trwy ein gwefan, pyrh, a chyfrngau cymdeithasol. Golyga hyn fod popeth rydyn ni'n postio yn Saesneg y byddwn yn postio yn Gymraeg ar yr un pryd heb oedi. Byddwn ni'n ymateb i bobl yn eu dewis iaith.



Rydym yn argraffu ac yn arddangos yn ddwyieithog. Bydd holl hysbysfyrddau ac hysbysiadau a arddangosir gennym neu argraffiadau a anfonir yn allanol yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

Mae gan bob aelod staff yr hawl i ofyn am y canlynol trwy gyfrwng y Gymraeg: Cyfarfodydd, Dogfennau yn ymwneud â chyflogaeth, Hyfforddiant, Meddalwedd Cyfrifiadurol, Gwersi Gymraeg